CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
3 MEHEFIN 2015, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, N Jones, R Davies, S Hughes, A Evans, R Edwards, Cyng A W Mummery (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng E Williams, G Roberts, J Evans (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng R Davies (Bryn Gof, Star)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 6 Mai 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N Jones yn cynnig a Cyng S Hughes yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Eglwys Sant Gredifael** - Mae y Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru.
4.2	**Beinciau (gosod)** - mewn llaw
4.3	**Maes chwarae (creu pwyllgor)** - mewn llaw
4.4	**Lon Garnedd Isaf** - mewn llaw
4.5	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - mewn llaw
4.6	**Gwrychoedd ar y ffordd i Ceint** - mewn llaw
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C99N Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu a codi garej gyda stordy gardd yn Uned 6, Bryn Gof, Star - dim sylwadau
5.2	41C132/RUR cais llawn ar gyfer codi dau annedd amaethyddol, gosod system trin carthffosiaeth ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn Cae Isaf, Pentraeth - dim sylwadau
	Swyddog Monitro
5.3	Llwybr Troed Rhif 13 (Gwyro LLwybr Cyhoeddus) - gwybodaeth yn unig
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Grwp Cynefin - gwybodaeth yn unig - grant £500 ar gael
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Penderfyniwyd talu Rhent maes chwarae £93.80
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mae'r arwydd ar troeiad Penmynydd o Star wedi troi. Bydd y clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
8.2	Mae gwrychoedd gyferbyn a Dolwen, Star angen ei dorri. Bydd y clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
	Llofnod **Cadeirydd** **01.07.15**

8.3	Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus cyn y cyfarfod misol gyda dros 50 aelodau o'r cyhoedd yn bresennol. Rhoddwyd cyflwyniad gan chynrychiolwyr y Grid Cenedlaethol ynghylch yr opsiynau o drosglwyddo trydan o Wylfa. Dewis gorau y Grid yw drwy beilonau. 'Roedd pawb yn bresennol yn erbyn hyn am nifer o rhesymau ac y byddai'n well ganddynt weld trydan yn cael ei drosglwyddo o dan y mor. Cynigodd Cyng A Mummery llongyfarchiadau i Cyng D I Roberts am cadeirio y cyfarfod cyhoeddus a cynigodd Cyng Roberts diolchiadau i Cyng A Evans am fynd o dy i dy gyda llythyrau gwrthwynebu y peilonau a wedi derbyn dros cant o lofnodion.		
	Llofnod	**Cadeirydd**	**01.07.15**